

Dr Andrew Goodall
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Ionawr 2022

Annwyl Mr Isherwood

Yn unol â'ch cais, rwy'n amgáu papur ar waith yr Uned Cyrff Cyhoeddus, cyn ein trafodaeth yn y Pwyllgor ar 26 Ionawr.

Mae'r papur yn adlewyrchu'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar waith yr Uned. Bu'n rhaid ymgymryd â'r rhaglen waith yng nghyd-destun yr angen i adleoli staff i weithio ar y pandemig ac yng nghyd-destun yr adnodd cyffredinol sydd gennym.

Er gwaethaf hyn, rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Mae'r newid diwylliannol yn ein perthynas â'n Cyrff Hyd Braich wedi dechrau cael ei sefydlu; mae'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus wedi ymwreiddio ac wedi dod yn fforwm pwysig yn barod ar gyfer cyfathrebu, rhannu profiadau a lledaenu arferion da; llwyddwyd i gynnal yr un lefel o benodiadau cyhoeddus; ac mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwella amrywiaeth o ran y penodiadau a wneir i Fyrddau cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cryn ffordd i fynd o hyd i gwblhau'r prosiect hwn, ac nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen cyn gynted ag yr oeddem wedi gobeithio, am y rhesymau a amlinellir uchod. Ond rwy'n credu bod wedi dechrau'n dda ac rwy'n edrych ymlaen at drafod hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddwn yn cyfarfod yn ddiweddarach y mis hwn.



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Yn gywir,

Andrew Goodall

Dr Andrew Goodall

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

GWAITH UNED CYRFF CYHOEDDUS LLYWODRAETH CYMRU

Tarddiad a Rôl yr Uned

1. Yn 2018 cwblhaodd Llywodraeth Cymru adolygiad eang o'i chydberthynas â'i Chyrff Hyd Braich. Yn ogystal â sgysiau mewnol â Gweinidogion a swyddogion allweddol, fel rhan o'r adolygiad cafwyd sgysiau â Phrif Swyddogion Gweithredol, Cadeiryddion, Noddwyr, Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, Swyddfa Archwilio Cymru ac Adrannau Whitehall. Gwnaeth yr adolygiad 37 o argymhellion o dan chwe thema, i gyd yn seiliedig ar ganolbwyntio ar roi'r gorau i'r gydberthynas nawdd oruchwyliol flaenorol, a meithrin un a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar bartneriaeth a chydymddiriedaeth.

2. Un o brif argymhellion yr adolygiad oedd creu Uned Cyrff Cyhoeddus a fyddai'n gyfrifol am fod yn bwynt ffocws canolog yn Llywodraeth Cymru ar gyfer materion cyffredinol yn ymwneud â Chyrff Hyd Braich. Byddai hyn yn creu arbedion effeithlonrwydd wrth oruchwylio cyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac yn cyflwyno dull diwygiedig o oruchwylio a chyflawni a fyddai, yn ei dro, yn galluogi Cadeiryddion a Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Hyd Braich i fod yn fwy cyfrifol ac atebol am eu penderfyniadau. Byddai rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn sicrhau bod cyngor cyson yn cael ei roi a hynny'n fwy effeithiol i bob Corff Hyd Braich yng Nghymru, a byddai ganddi fwy o allu ar lefel ganolog i ddelio â materion cyffredinol yn ymwneud â Chyrff Hyd Braich. Byddai hefyd yn cymryd drosodd oddi wrth feysydd polisi unigol rhai swyddogaethau nawdd a allai gael eu cyflawni "unwaith ac yn dda" ar y lefel gorfforaethol a byddai'n gweithredu fel canolfan ragoriaeth, gan ddarparu mwy o dryloywder a sicrwydd i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

3. Cafodd argymhellion yr adolygiad eu derbyn gan y Prif Weinidog a'r Cabinet. Cafodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus ei sefydlu yn 2018 i weithredu'r argymhellion a gweithredu fel pwynt canolog ar gyfer materion cyffredinol yn ymwneud â Chyrff Hyd Braich. Daeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn gyfrifol am benodiadau cyhoeddus, cydlynu Anrhydeddau a chyflog a phensiynau gwasanaeth cyhoeddus ar yr un pryd. Felly, cylch gwaith cyffredinol yr Uned Cyrff Cyhoeddus yw:

- rhoi cyngor a chymorth i Gyrrff Hyd Braich a thimau partneriaeth ar faterion yn ymwneud ag atebolrwydd a llywodraethiant;
- Goruchwylio'r rhaglen o adolygiadau pwrpasol o Gyrrff Hyd Braich;
- Ysgrifenyddiaeth i'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus;
- penodiadau cyhoeddus ar draws yr holl gyrrff cyhoeddus a Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau – gan ddefnyddio Tîm Penodiadau Cyhoeddus sy'n gweithio gyda Thimau Partneriaeth (noddwyr) i gyflwyno penodiadau cyhoeddus;
- Cydweithio â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
- datblygu a chyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer penodiadau cyhoeddus a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a gymeradwyir gan Weinidogion;

- goruchwylio'r system Anrhydeddau yn Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb uniongyrchol am feysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r Wladwriaeth;
- goruchwylio materion cyflog a phensiynau Cyrff Hyd Braich, er mwyn ceisio sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder.

Staffio'r Uned

4. Yn ystod y pandemig mae'r Uned wedi gweithredu gyda thua hanner y staff o 21 a fwrriadwyd wrth i lawer o staff yr Uned, ar bob lefel, gael eu symud am gyfnodau hir i helpu i weithio ar y pandemig. Mae hyn yn anochel wedi cael effaith ar allu'r Uned Cyrff Cyhoeddus i gyflawni ei hagenda yn unol â'r amserlen wreiddiol ac mae wedi golygu bod rhai o'r agweddau dewisol ar y gwaith wedi'u gohirio.

Cylch gwaith yr Uned

5. Atodir rhestr o'r cyrff sydd wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yng nghylch gwaith yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Mae 'cyrff cyhoeddus' yn derm eang sy'n cynnwys awdurdodau lleol, cyrff y GIG, sefydliadau statudol ac eraill, ond mae'r cyrff cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu ac yn eu cyfarwyddo, i raddau mwy neu lai, yn cael eu galw'n Gyrff Hyd Braich (Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gynt). Mae gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ddiddordeb ym mron holl gyrff cyhoeddus Cymru, a pheth cyfrifoldeb amdanynt, ond nid yw'n gwbl gyfrifol amdanynt. Nid oes gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus unrhyw oruchwyliaeth weithredol dros Awdurdodau Lleol; Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG nac Awdurdodau Iechyd Arbennig; Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; Awdurdodau Tân ac Achub; Cynghorau Tref a Chymuned; Comisiynwyr yr Heddlu; na'r sefydliadau hynny a ariennir gan Gomisiwn y Senedd drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

6. Fodd bynnag, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gyfrifol i ryw raddau am gefnogi penodiadau i gyrff iechyd fel rhan o'i chylch gwaith ar benodiadau, ac mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol am gefnogi'r system Anrhydeddau gwasanaeth cyhoeddus.

Gweithredu'r Prif Argymhellion o ran Cyrff Hyd Braich

7. Bu'r broses o greu, ar y cyd ag Arweinwyr Cyhoeddus, **Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus** (Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Gweithredol Cyrff Hyd Braich a chyrrff cyhoeddus eraill) i hwyluso gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth a fydd yn arwain at gynllunio mwy effeithlon a gwell penderfyniadau yn ddatblygiad arloesol pwysig yng Nghymru. Mae llawer o themâu cyson wedi dod i'r amlwg o ran atebolrwydd a pharchu 'annibyniaeth' pob sefydliad, ond gan gydnabod ar yr un pryd ein bod hefyd yn 'rhyngddibynnol'. Mae fformat y Fforwm, yr ymgysylltu ag ef a'r pynciau a drafodir

ganddo yn parhau i ddatblygu wrth iddo ymsefydlu'n fwy, ac wrth i gydb berthnasau rhwng Arweinwyr Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru aeddfedu.

8. Mae'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion allweddol sydd o ddiddordeb i bawb. Mae'r rhwydwaith hwn hefyd yn fodd i Weinidogion ac uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod ag arweinwyr cyhoeddus dylanwadol yng Nghymru yn rheolaidd, er mwyn gwrandao ar eu barn a chyfleu negeseuon y ddwy ffordd, yn uniongyrchol ac yn gyson. Yn ystod y pandemig cyfarfu'r Fforwm o bell i drafod materion a oedd o ddiddordeb i bawb, a chafodd y rhwydwaith ei ddefnyddio gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus (ar ran Llywodraeth Cymru) fel y dull cyfathrebu mwyaf effeithiol i gadw arweinwyr cyhoeddus mewn cysylltiad â pholisïau a chyngor Llywodraeth Cymru (a Llywodraeth y DU fel y bo'n briodol) mewn perthynas â'r pandemig. Gwnaeth y Fforwm ennill ei blwyf yn ystod y cyfnod hwn fel dull o drafod materion allweddol a mynd i'r afael â nhw.

9. Un o ganlyniadau pwysig eraill yr adroddiad "Cyflawni Gyda'n Gilydd" oedd **diwygio'r Gweithdrefnau Galw i Mewn**. Golygai nad oedd angen i Gyrrff Hyd Braich atgyfeirio rhai penderfyniadau at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, megis tendrau unigol islaw trothwy dynodedig, neu faterion eraill nad ydynt yn debygol o gael eu hystyried yn newydd ac yn ddadleuol. Mae hyn wedi lleihau'r beichiau gweinyddol ar Lywodraeth Cymru a Chyrrff Hyd Braich, ac wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd i'r ddau barti. Mae'n galluogi Prif Weithredwyr i wneud penderfyniadau y maent yn gyfrifol amdanynt fel Swyddogion Cyfrifyddu ac i roi cyfrif amdanynt wedyn. Mae hefyd yn galluogi Cadeiryddion i herio eu swyddogion gweithredol yn fwy effeithiol.

10. Nid yw bellach yn ofynnol i bob Bwrdd Corff Hyd Braich gael **Arsylwr o Lywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd**, heblaw am Gyrrff Hyd Braich sy'n gwmnïau cyfyngedig lle mae swyddog o Lywodraeth Cymru yno i gynrychioli'r cyfranddeiliad h.y. Gweinidogion Cymru. Yn ôl adborth gan y Cyrff Hyd Braich roedd yr arfer hwn yn atal trafodaethau agored yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac roedd rôl yr arsylwr yn amwys a gallai beri anawsterau ynddo'i hun. Mae Timau Partneriaeth yn dal i dderbyn Papurau'r Bwrdd, ac efallai y byddant am fynychu cyfarfodydd penodol o hyd yn seiliedig ar adolygiad o'r papurau hynny. Gall y Bwrdd hefyd wahodd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru am reswm penodol sydd wedi'i ddiffinio'n glir, ond o dan yr amgylchiadau hyn byddai'r Byrddau yn dal i fod yn gyfrifol, ac yn atebol am eu penderfyniadau. Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl weithredol, heblaw am yn yr amgylchiadau penodol a nodir uchod.

11. Mae llythyrau cylch gwaith blynyddol, dyfarniadau cyllidebol a chynlluniau busnes i bob Corff Hyd Braich yn cael eu disodli gan **ddull gweithredu yn seiliedig ar 'Dymor y Llywodraeth'** a fydd yn hwyluso gwaith cynllunio tymor hwy ac yn darparu mwy o sefydlogrwydd, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau goruchwylio. Bydd y newid hwn i gydberthynas fwy strategol yn cysylltu gweithgareddau pob corff unigol yn gliriach i'r cyfraniad y gall ei wneud at Raglen y Llywodraeth a dylai hwyluso trefniadau gweithio mwy unedig.

Adolygiadau Pwrpasol

12. Un o argymhellion eraill “Cyflawni gyda'n Gilydd”, ac un y gwnaeth y Pwyllgor ofyn amdano'n benodol, oedd sefydlu rhaglen o Adolygiadau Pwrpasol o Gyrrff Hyd Braich yn lle'r adolygiadau pum mlynedd a thair blynedd flaenorol. Y nod oedd cyflawni dull mwy di-dor o adolygu cyrrff cyhoeddus, mewn ffordd a oedd o fudd adeiladol ac sy'n galluogi'r Cyrff Hyd Braich eu hunain i chwarae rhan lawn, ac sy'n sicrhau y darperir her a sicrwydd rheolaidd o ran anghenion parhaus, effeithlonrwydd a llywodraethiant da y cyrrff hynny. Drwy sicrhau bod yr adolygiad yn berthnasol i'r corff dan sylw, gellir mynd ati i adolygu cyrrff cyhoeddus, a rhannu arferion gorau, mewn ffordd fwy cymesur, hyblyg a chydweithredol.

13. Mae'r ddogfennaeth, y canllawiau a'r templedi angenrheidiol i sicrhau cysondeb, tryloywder a chylch gorchwyl cyson ar gyfer pob Adolygiad Pwrpasol yng Nghymru wedi'u datblygu mewn partneriaeth agos â Chyrrff Hyd Braich a'u rhanddeiliaid. Cafodd yr Adolygiad Pwrpasol cyntaf, o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ei gwblhau'r llynedd. Ystyriwyd bod yr Adolygiad yn llwyddiant, yn enwedig gan y Llyfrgell Genedlaethol ei hun. Roedd y defnydd o Banel Annibynnol i wneud y gwaith, yr ymgysylltu â rhanddeiliad, a chynnwys y Bwrdd ei hun mewn ffordd adeiladol i gyd yn feysydd a weithiodd yn arbennig o dda. Mater pwysig arall a nodwyd oedd bod y gwaith wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl a bod lle i symleiddio'r broses.

14. Yn sgil y gwersi a ddysgwyl o'r ymarfer hwnnw, mae rhaglen dreigl pum mlynedd o Adolygiadau yn cael ei datblygu. Bydd y rhaglen yn seiliedig ar risgiau a nodwyd, newidiadau sylweddol ym mlaenoriaethau Gweinidogion, neu unrhyw sbardunau arwyddocaol eraill a nodir gan rhanddeiliaid, y Bwrdd, yr Uwch-dîm Gweithredol, y Tîm Partneriaeth, neu ar gais Gweinidog.

15. Cytunir ar aelodau Annibynnol o'r Panel ac fe'u penodir gan yr Uned Cyrrff Cyhoeddus drwy ymgynghori â'r corff cyhoeddus a'r Tîm Partneriaeth ar gyfer pob adolygiad. Er mwyn cynnal natur annibynnol a diduedd yr Adolygiad Pwrpasol, y Panel Annibynnol ei hun fydd yn llunio'r Adroddiad ar yr Adolygiad Pwrpasol a'i argymhellion. Cyhoeddir yr holl adroddiadau ar Adolygiadau Pwrpasol er mwyn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd mewn ymateb i argymhellion, ac i rannu arferion da. Bydd Panel Her o Lywodraeth Cymru yn craffu ar broses yr Adolygiad Pwrpasol a'r adroddiad drafft er mwyn sicrhau bod proses yr Adolygiad Pwrpasol yn gyson ac yn effeithiol.

Penodiadau Cyhoeddus

16. Yn 2020-21, cafodd dros 100 o benodiadau cyhoeddus ac ailbenodiadau eu rheoli'n uniongyrchol neu eu cefnogi gan yr Uned Cyrrff Cyhoeddus. Y bwriad hirdymor yw sicrhau y caiff penodiadau cyhoeddus eu harwain yn gorfforaethol ar draws yr holl gyrrff cyhoeddus a sefydliadau'r GIG. Mae'r Uned Cyrrff Cyhoeddus wedi meithrin cydberthnasau agos â Thimau Partneriaeth Llywodraeth Cymru, cyrrff cyhoeddus a

sefydliadau'r GIG a chydabyddir ei bod yn ffynhonnell hanfodol o gyngor i sicrhau y gwneir penodiadau cyhoeddus effeithiol ar draws y llywodraeth. Yn ogystal â'i rôl gyngorol, ers mis Ebrill 2018, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi bod yn gyfrifol am benodiadau cyhoeddus sefydliadau'r GIG ac mae wedi cymryd cyfrifoldeb am lunio'r agenda bolisi fel y mae'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus. Mae hyn wedi cynnwys gwneud newidiadau i'r broses benodi, o gyflwyno camau asesu ychwanegol i roi trefniadau ar waith ar gyfer gwrandawiaid cyn penodi.

17. Caiff llawer o benodiadau cyhoeddus i fyrdau cyrff cyhoeddus eu gwneud yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Cod yn cynnwys set gymharol lem o brotocolau a gweithdrefnau i'w dilyn a ymgorfforir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ym mhob penodiad cyhoeddus perthnasol. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi meithrin cydberthynas waith gynhyrchiol dda â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n golygu y gellir gwneud penodiadau ar draws y llywodraeth yn unol â'r Cod, ac sy'n cynnig datrysiadau pragmataidd a ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant. Bu rhoi'r gorau i benodiadau cyhoeddus ym mis Ebrill 2020, oherwydd y pandemig, am chwe mis yn un enghraifft o'r fath o ddull gweithredu y gwnaeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus gytuno arno â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus

18. Mae rhoi'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ar waith yn flaenoriaeth Weinidogol. Mae'r Strategaeth yn pennu gweledigaeth a chamau gweithredu sy'n anelu at wella amrywiaeth arweinyddiaeth mewn bywyd cyhoeddus, drwy wella amrywiaeth y sawl sy'n cael eu penodi i rolau cyhoeddus. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r broses benodi, cefnogi unigolion a llywio newid diwylliannol. Ddechrau 2021, cafodd 13 o Uwch-aelodau o'r Panel Annibynnol eu recriwtio o bob cwr o Gymru i ymuno â phaneli recriwtio ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol yng Nghymru. Daw'r unigolion o bob cefndir (ac mae ganddynt amrywiaeth o nodweddion gwarchoddedig). Hyd yn hyn bu'r adborth yn gadarnhaol iawn. Mae'r aelodau wedi rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, yn cynnwys profiadau gwirioneddol, er mwyn cyfoethogi'r broses recriwtio ac ychwanegu gwerth ati. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i fynd ati i recriwtio Uwch-aelodau o'r Panel Annibynnol yn y ffordd hon.

19. Hefyd, y llynedd, gwnaeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus gaffael cyfres o raglenni hyfforddi a datblygu sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd ag arferion recriwtio a sefydlu cynhwysol. I ddechrau bydd y rhaglenni datblygu yn targedu unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol a phobl anabl. Bydd rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer y rheini sydd ar fin bod yn barod i arwain yn anelu at gefnogi unigolion â phrofiad blaenorol o weithio neu ymgysylltu mewn bywyd cyhoeddus a bwriedir i raglen arweinwyr y dyfodol gefnogi unigolion sydd â llai o ymwybyddiaeth neu brofiad o rolau cyhoeddus. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus am i'r rhaglenni hyn gael eu cyflwyno ar ddechrau 2022.

Anrhydeddau

20. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at ddwy rownd o Anrhydeddau bob blwyddyn, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr mewnol a Swyddfa Cabinet y DU. Mae'r trefniadau ar gyfer enwebiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag Anrhydeddau'r Wladwriaeth, wedi cael eu canoli ac fe'u cyflawnir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Mae hyn wedi gwella cysondeb, ac wedi hwyluso'r broses o ddatblygu cyflenwad o ddarpar enwebeion. Cynhaliwyd gwell ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn anelu at wella nifer ac amrywiaeth yr enwebiadau a geir yng Nghymru.

Tîm Cyflogau, Pensiynau ac Ymgysylltu

21. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn goruchwyllo trefniadau taliadau cydnabyddiaeth penodeion cyhoeddus, ac yn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd ar faterion cyflog a phensiwn Cyrff Hyd Braich. Mae'r Uned yn gyfrifol am gyfathrebu a thrafod amrywiaeth o faterion ynghylch cyflogau a phensiynau, a materion cysylltiedig eraill, ar gyfer cyflogeion ac Aelodau Bwrdd cyrff cyhoeddus ledled Cymru.

22. Mae'n cynnig arweiniad ar daliadau cydnabyddiaeth Byrddau a chyrrff eraill ar gyfer aelodau neu gyfarwyddwyr anweithredol, yn seiliedig ar faint a chyfrifoldeb y corff, ond y Gweinidogion cyfrifol a'r Tîmau Partneriaeth sy'n gyfrifol am benderfyniadau terfynol ar gyflogau. Yn yr un modd, mae'r tîm yn rhoi cylchoedd gwaith cyflog i Gyrrff Hyd Braich ond nid yw'n pennu cyflogau staff ar eu cyfer, nac yn cymeradwyo cytundebau cyflog a negodir rhwng pob corff a'i staff.

23. Ymhlith tasgau allweddol y tîm Cyflogau, Pensiynau ac Ymgysylltu mae'r canlynol:

- Creu a dosbarthu cylch gwaith cyflog blynyddol cyrff hyd braich, gan roi'r disgwyliadau cyffredinol iddynt (ond nid cyfarwyddiadau);
- Cefnogi'r agenda cyflog cyfartal ar draws y cyrff hyd braich a hyrwyddo cyflogau cyfartal mewn cyrff cyhoeddus eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru;
- Rhoi arweiniad ar daliadau cydnabyddiaeth i gadeiryddion, dirprwy gadeiryddion ac aelodau bwrdd cyrff cyhoeddus, yn cynnwys cyrff y GIG, a diweddarau'r matrices sy'n pennu lefelau taliadau cydnabyddiaeth a argymhellir;
- Cynnal cysylltiadau â Llywodraeth y DU, yn enwedig Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet, a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar reoli a newid cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a chymeradwyo ceisiadau cynlluniau ymadael yn gynnar;

- Bod yn Ysgrifenyddiaeth i Grŵp Sector Datganoledig cyrff cyhoeddus Cymru, gyda phwyslais penodol ar gyflog, amodau a chlodadwyedd staff ar draws y sector;
- Diweddarau'r adroddiad ar Uwch Gyflogau bob 3 i 4 blynedd, gan bennu lefelau cyflog, gwahaniaethau rhwng y rhywiau a chymarebau rhwng y cyflogau uchaf a chanolrifol.

Gweithio gyda Thimau Partneriaeth

24. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio'n agos gyda Thimau Partneriaeth ar draws Llywodraeth Cymru o ran materion cyffredinol yn ymwneud â Chyrff Hyd Braich. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi bod wrthi'n cynghori ar greu'r Cyrff Cyhoeddus newydd canlynol;

- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol;
- Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd;
- Corff Llais y Dinesydd;
- Cwmni Eginio;
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

25. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus hefyd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar ddyfodol y Bwrdd Marchnata Gwlân, ac mae hefyd wedi darparu cyngor ar faterion yn ymwneud â nifer o Fyrddau Cynghori Gweinidogol a Chyrff Ad Hoc. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol, yn enwedig ar gynnal y Gofrestr Cyrff Cyhoeddus.

Gwerthuso

26. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn derbyn, ac yn croesawu, adborth ad hoc rheolaidd gan Weinidogion, swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, a Chadeiryddion a swyddogion y cyrff y mae'n gweithio gyda nhw. Hyd yma y consensws cryf fu bod greu'r Uned a rhoi argymhellion yr adroddiad adolygu gwreiddiol ar waith wedi dechrau arwain at gydberthynas fwy unedig, aeddfed a chydlynol rhwng Llywodraeth Cymru a'i Chyrff Hyd Braich sy'n fwy effeithiol, ac yn fwy effeithlon, na'r trefniadau blaenorol. Bu'n rhaid gohirio'r broses o gwblhau'r ymarfer gwerthuso ffurfiol, ynghyd â gwaith arall yr Uned Cyrff Cyhoeddus, tan y flwyddyn hon am fod y staff a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith wedi symud i weithio ar y pandemig.

Atodiad – Cyrff hyd braich wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yng nghylch gwaith yr Uned Cyrff Cyhoeddus

Annex – ALBs directly included in the remit of the Public Bodies Unit

- Celfyddydau Cymru/Arts Wales
- Gyrfa Cymru/Careers Wales
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol /The Centre for Digital Public Services
- Comisiwn Dylunio Cymru/Design Commission Wales
- Banc Datblygu Cymru /Development Bank for Wales
- Estyn
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru /Higher Education Funding Council for Wales
- Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales
- Diwydiant Cymru/Industry Wales
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru/ Local Democracy and Boundary Commission for Wales
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysg/National Academy for Education Leadership
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales
- Amgueddfa Cymru /National Museum Wales
- Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales
- Arolygiaeth Gynllunio Cymru/Planning Inspectorate Wales
- Cymwysterau Cymru/Qualifications Wales
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru/Royal Commission on Ancient and Historical Monuments of Wales
- Gofal Cymdeithasol Cymru/Social Care Wales
- Chwaraeon Cymru/Sport Wales
- Cyllid Myfyrwyr Cymru/Student Finance Wales
- Trafnidiaeth Cymru /Transport for Wales
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru/Life Sciences Hub Wales
- Awdurdod Cyllid Cymru /Welsh Revenue Authority
- Rheoli Datblygu Cymru /Welsh Development Management
- WGC Holdco
- Cyngor y Gweithlu Addysg /Education Workforce Council

- Comisiynwyr (Plant, Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg, Pobl
Hŷn/Commissioners (Children's, Future Generations, Welsh Language, Older
People's)